# Adeiladu a Adnewyddu Cynaliadwy

TAFLEN GLAWR Y POLISI

## Manylion Allweddol

| | |
|---|---|
| ***TEITL POLISI*** | *Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy* |
| ***DYDDIAD CYMERADWYO*** | *7 Mai 2025* |
| ***CORFF CYMERADWYOL*** | *Bwrdd Academaidd* |
| ***FERSIWN*** | *1* |
| ***DYDDIADAU ADOLYGU BLAENOROL*** | *Newydd* |
| ***DYDDIAD ADOLYGIAD NESAF*** | *Mawrth 2027* |
| ***CANLYNIAD ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB*** | ** Dim newid mawr* |
| ***POLISÏAU / GWEITHDREFNAU / CANLLAWIAU CYSYLLTIEDIG*** | *Strategaeth Cynaladwyedd*<br>*Strategaeth Ymgysylltu Cynaliadwyedd*<br>*Cynllun Rheoli Carbon 2024 – 2030*<br>*Polisi Cysur Thermol*<br>*Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol*<br>*Polisi Caffael Cynaliadwy*<br>*Polisi Rheoli Gwastraff*<br>*Polisi Rheoli Dŵr*<br>*Polisi Bioamrywiaeth*<br>*Targedau cynaliadwyedd a ffocws ar reoli Carbon*<br>*Cynllun Teithio* |
| ***DYDDIAD GWEITHREDU*** | *Mai 2025* |
| ***PERCHENNOG POLISI (TEITL SWYDD)*** | *Pennaeth Prosiectau Strategol, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau a'r Amgylchedd* |
| ***UNED / GWASANAETH*** | *Yr Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd* |
| ***E-BOST CYSWLLT*** | *pldavies@cardiffmet.ac.uk* |

## Rheoli Fersiwn

| ***FERSIWN*** | ***DYDDIAD*** | ***RHESWM DROS NEWID*** |
|---|---|---|
| *1.0* | *Mai 2025* | *Fersiwn cyntaf* |

## Hyb Polisïau

I gael rhagor o wybodaeth am bolisïau:

1. Gallwch fynd i dudalennau'r Ysgrifenyddiaeth ar InSite drwy https://outlookuwicac.sharepoint.com/sites/Secretariat;
2. Gallwch fynd i'r Hyb Polisïau drwy cardiffmet.ac.uk/about/policyhub; neu
3. Cysylltwch â policies@cardiffmet.ac.uk.

## Cynnwys

Manylion Allweddol....................................................Error! Bookmark not defined.

Rheoli Fersiwn ..........................................................Error! Bookmark not defined.

Hyb Polisïau ...............................................................Error! Bookmark not defined.

1 Cyflwyniad ..........................................................Error! Bookmark not defined.

2 Polisi .....................................................................Error! Bookmark not defined.

3 Rolau a Chyfrifoldebau ........................................Error! Bookmark not defined.

4 Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig..................Error! Bookmark not defined.

5 Adolygu a Chymeradwyo .....................................Error! Bookmark not defined.

# Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Pwrpas

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd y rôl sydd ganddi i'w chwarae wrth ddiogelu ein hamgylchedd naturiol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn fyd-eang wrth hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd ar draws ei holl weithgareddau, gan gynnwys adeiladu ac adnewyddu.

### 1.2 Cwmpas

1.2.1 Nod y Polisi hwn yw lleihau effaith amgylcheddol ein prosiectau adeiladu ac adnewyddu. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â gweithgaredd adeiladu gan gynnwys adeiladu newydd, adnewyddu a phrosiectau cynnal a chadw sy'n arwain at effaith amgylcheddol.

1.2.2 Mae'r holl effeithiau i'w mesur a'u cofnodi fel rhan o dargedau Cynaliadwyedd a ffocws rheoli carbon achrediad IS0 14001 y Brifysgol.

1.2.3 Mae’r Brifysgol wedi’i lleoli ar ddau Gampws – Llandaf ar gyfer addysgu a Chyncoed ar gyfer addysgu a phreswyl: Neuaddau preswyl a swyddfeydd staff Plas Gwyn – Tŷ Alexander a CBAC.

1.2.4 Mae'r Polisi hwn yn cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy rhifau 6; 7; 9; 11; 12; a 13.




### 1.3 Diffiniadau

1.3.1 **Nodau Datblygu Cynaliadwy -** Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn set o 17 nod a sefydlwyd yn 2015 gan y Cenhedloedd Unedig. Bwriad y nodau yw creu byd mwy cynaliadwy a theg drwy fynd i'r afael â heriau byd-eang**.**

1.3.2 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gyfraith sy'n anelu at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Pwrpas y ddeddf yw sicrhau bod gweithredoedd yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ei hunain.

1.3.3 **ISO 14001** Mae gweithgareddau’r Brifysgol yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO 14001. Cefnogir hyn gan gyhoeddiad ac adrodd ar amcanion clyfar a blaenoriaethau i gyflawni'r System Rheoli Amgylcheddol, y Strategaeth Gynaliadwyedd a'r Cynllun Rheoli Carbon gyda pholisïau thema cynaliadwyedd.

1.3.4 **Mae Carbon Net Sero** yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng faint o nwyon tŷ gwydr y mae'r Brifysgol yn ei gynhyrchu a faint sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer. Gellir ei gyflawni drwy gyfuniad o leihau allyriadau a dileu allyriadau.

1.3.5 **Sgôr SKA -** Offeryn gwerthfawr ar gyfer meincnodi ac ardystio prosiectau dodrefnu swyddfa fwy gwyrdd yn y DU. Mae'r system raddio yn helpu i fesur cynaliadwyedd ar draws ffactorau fel defnydd ynni a dŵr, allyriadau CO2, deunyddiau, gwastraff a llygredd. Mae'n gweithio drwy neilltuo lefel ardystio efydd, arian neu aur yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn dros 100 o fesurau arfer da.

## 2 Polisi

2.1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod diffiniad eang o gynaliadwyedd, yn seiliedig ar ymgysylltu â datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ei hunain.

2.2 Rydym yn deall bod ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO 14001.

2.3 Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori'r nodau perthnasol yn ein proses fusnes ac academaidd, fel y nodir, mae Nodau Datblygu Cynaliadwy rhifau 6; 7; 9; 11; 12; a 13 yn arbennig o berthnasol i'r Polisi hwn.

2.4 Mae Strategaeth 2030, cynllun strategol y Brifysgol, yn gosod cynaliadwyedd yn gadarn wrth ei gwraidd drwy nodi 'Dyfodol Carbon Isel' fel blaenoriaeth strategol. Bydd y Brifysgol yn cyflawni ei nod o ddod yn Ddi-Garbon Net ar gyfer allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 erbyn 2030; ac ochr yn ochr â hyn bydd yn symud ymlaen â'r gwaith o leihau ei allyriadau Cwmpas 3 30% erbyn 2030 gyda'r nod o gyflawni allyriadau Carbon Sero Net ar gyfer Cwmpas 3 erbyn 2040.

2.5 Mae'r Brifysgol wedi treialu offer a methodolegau ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol ar gyfer prosiectau adnewyddu a gosod dethol. Mae'r rhain yn cynnwys cymhwyso system meincnod ffitiadau Sgôr SKA sydd wedi arwain at ardystiad efydd ac arian gan aseswyr cymwys allanol. Bydd y defnydd o'r offer diweddaraf a'r mesurau arfer da yn cael eu hadolygu a'u gweithredu'n barhaus i gefnogi'r targedau System Rheoli Amgylcheddol a lleihau carbon a osodwyd gan y Brifysgol. Mae'r rhain yn ystyried y canllawiau a'r fethodoleg arfer gorau diweddaraf ar gyfer adrodd a chofnodi effeithiau lleihau carbon ac amgylcheddol ar gyfer prosiectau, gwaith a gwelliannau adnewyddu a datgarboneiddio.

2.6 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithredu dulliau a thechnoleg datgarboneiddio ar draws yr ystâd. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni gwella gan

gynnwys disodli seilwaith presennol yn raddol gyda dulliau adnewyddadwy mwy effeithlon i leihau carbon gan gynnwys Solar / PV, BESS, goleuadau LED, Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer a phrosiectau peilot eraill sy'n cynnwys gosodiadau foltedd isel DC ar gyfer goleuadau a phŵer ledled adeiladau. Mae mesurau eraill i leihau effeithiau amgylcheddol yn cynnwys ynni, teithio a thrafnidiaeth, deunyddiau, gwastraff, ecoleg, bioamrywiaeth, llygredd a lles.

2.7 Bydd y dulliau a fabwysiadwyd yn gwella effeithlonrwydd adnoddau, yn lleihau costau rhedeg, ac yn cefnogi carbon sero net. Gall pob cam a phroses wrth ddylunio ac adnewyddu, adeiladu a gweithredu adeiladau gyfrannu at welliannau cynaliadwyedd a bydd y Brifysgol yn mabwysiadu camau ar gyfer cyflawni prosiectau adeiladu ac adnewyddu i leihau effeithiau amgylcheddol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod na fydd bob amser yn bosibl dilyn pob cam ar gyfer gwaith a gwelliannau llai, fodd bynnag, bydd y themâu a'r blaenoriaethau allweddol yn cael eu dilyn.

2.8 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl waith adeiladu, adnewyddu a gwelliannau yn cyd-fynd ag arferion gorau ar gyfer cynaliadwyedd. Drwy fabwysiadu'r polisi hwn, ein nod yw lleihau ein heffaith amgylcheddol, hyrwyddo cadwraeth adnoddau, a gwella cynaliadwyedd hirdymor ein hamgylchedd adeiledig.

## 3 Rolau a Chyfrifoldebau

3.1 Drwy reoli'r Rhaglen Gyfalaf, adroddir ar gynnydd allweddol yn gyntaf i'r Grŵp Gwaith Gweithredu ar yr Hinsawdd ac yna i'r Pwyllgor Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd.

3.2 Rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau y gall ein rhaglenni adeiladu ac adnewyddu cyflawni targedau'r Brifysgol ar gyfer allyriadau carbon, lleihau gwastraff, teithio cynaliadwy, effeithlonrwydd dŵr ac enillion bioamrywiaeth.

## 4 Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig

4.1 Cynllun Rheoli Carbon 2024 – 2030

4.2 Strategaeth Cynaladwyedd

4.3 Strategaeth Ymgysylltu Cynaliadwyedd

4.4 Polisi Cysur Thermol

4.5 Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol

4.6 Polisi Caffael Cynaliadwy

4.7 Polisi Rheoli Gwastraff

4.8 Polisi Rheoli Dŵr

4.9 Polisi Bioamrywiaeth

4.10 Cynllun Teithio

4.11 Targedau cynaladwyedd a ffocws rheoli Carbon.

## 5 Adolygu a Chymeradwyo

5.1.1 Bydd perchennog y polisi yn darparu diweddariadau o'r Polisi a thargedau Cynaliadwyedd cysylltiedig a ffocws rheoli carbon i'r Gweithgor Gweithredu Hinsawdd i ddechrau ac yna i Bwyllgor Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd y Brifysgol.